# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1- Adran F

### Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'w hateb ar 13 Gorffennaf 1999

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau )**

I ofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad

**1. Michael German (Dwyrain De Cymru);** Beth yw'r meini tramgwydd rhag sefydluawdurdod trafnidiaeth integredig i Gymru a'r Gororau a sut mae trechu'r meinitramgwydd hyn. (OAQ368VB)

**2. Helen Mary Jones (Llanelli);** Pa drefniadau sydd ganddo mewn golwg i sicrhau ybydd gan Gymru lais yn nirprwyaeth y Llywodraeth sy'n monitro hynt y targedau abennwyd yng Nghynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar fenywod ym Meijing ac yn y trefniadau argyfer y gynhadledd ddilynol yn y flwyddyn 2000. (OAQ364VB)

**3. Jenny Randerson (Canol Caerdydd);** A fydd yn cefnogi sefydlu cangen o'rGyfarwyddiaeth Fewnfudo yng Nghymru. (OAQ373VB)

**4. Christine Chapman (Cwm Cynon);** Pa asesiad y mae wedi'i gynnal o economiRhondda Cynon Taf. (OAQ363VB)

**5. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A gawn ddatganiad ganddo ar ddyfodol YsbytyCoffa Clydach, a gafodd ei gau yn syth wedi'r etholiad cyffredinol diwethaf.(OAQ372VB)

**6. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** Pa ddylanwad y gall y Cynulliad ei ddwyn iwahardd hela â chwn yng Nghymru. (OAQ356VB)

**7. Dr Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A oes ganddo gynlluniau ar y gweill i ddilynesiampl Lloegr, yr Alban ac Iwerddon a datblygu ail Ysgol Feddygol i Gymru. (OAQ371VB)

**8. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A oes ganddo gynlluniau i ddileu'rarholiadau lefel A a chreu math newydd o arholiadau yn eu lle ar gyfer disgyblion chwecheddosbarth Cymru. (OAQ361VB)

**9. Richard Edwards (Preseli a Sir Benfro);** A yw'n ymwybodol o bryderon poblSir Benfro ynghylch cynigion cwmni preifat i storio gwastraff niwclear yn hen safle'rR.N.A.D yn Nhrecwn ac a wnaiff roi ei addewid na fydd safle o'r fath yn niweidioamgylchedd nac economi Sir Benfro. (OAQ365JS)

**10. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A fydd yn cadw at y polisi bod CanllawiauCynllunio yn parhau i gynghori yn erbyn datblygu archfarchnadoedd newydd ar gyrion trefi.(OAQ355VB)

**11. Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** Gwneud datganiad ar fanteision sefydlu WAN igysylltu â sefydliadau addysg, llyfrgelloedd cyhoeddus a chanolfannau cymuned a sut ybyddai hyn yn hybu datblygiad yr economi ac yn chwalu'r rhwystrau sy'n atal poblrhag cael mynd at wybodaeth. (OAQ369VB)

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Maesyfed);** Pa gynlluniau sydd ganddo iwella'r cyfleoedd i bobl y Canolbarth gael triniaeth ddeintyddol gyda'r NHS.(OAQ370VB)

**13. Nick Bourne (Y Canolbarth a'r Gorllewin);** Pa sylwadau y mae wedi'ucael am ddatblygu ffermydd gwynt yng Nghymru ac a fydd yn gwneud datganiad ar y mater.(OAQ360VB)

**14. David Davies (Mynwy);** Pa gynlluniau sydd ganddo i leihau costau rhedeg adeiladPierhead. (OAQ375JS)

**15. Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa gamau y mae ei Lywodraeth yn eu cymryd i wellarhagolygon amaethyddwyr yng Nghymru? (OAQ374JS) [w]

**16. David Melding (Canol De Cymru);** Pa gamau y mae'n eu cymryd i ddatrys yproblemau ariannol y mae hanner holl ysbytai Cymru yn eu profi. (OAQ362VB)

**17. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa addewid all ei roi na fydd grant bloc yCynulliad o dan fformwla Barnett yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r arian cyfatebolar gyfer cynlluniau Amcan Un yn 2000-2001. (OAQ366VB)